



DARLLENWCH
Exodus 2: 11-15



ADNOD
ALLWEDDOL
Numeri 32: 23

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.

Stori 2 Camgymeriad mawr Moses.

Mae Moses erbyn hyn yn ddyn tua 40 oed ac mae e wedi bod yn byw ym mhalas Pharo am lawer o flynyddoedd. Ond cofiwch, bu ei fam ei hun yn nyrs iddo. Roedd hi wedi ei ddysgu am y gwir Dduw ac am yr Hebreaid, sef ei bobl ei hun.

Un diwrnod, aeth Moses i ymweld â'i bobl. Gwelodd un ohonyn nhw'n cael ei guro gan Eifftiad. Edrychodd Moses o'i gwmpas. Gwelodd nad oedd neb yn edrych, felly lladdodd y dyn o wlad yr Aifft.



C Gosodwch y geiriau sy'n dilyn yn y manau cywir yn y frawddeg er mwyn gweld beth wnaeth Moses wedyn.

tywod cuddiodd corff

C _____ y c _____ yn y t _____


3

Drannoeth, gwelodd Moses ddau Hebrëwr yn ymladd. Ceisiodd roi stop ar y cwffio. Dywedodd un o'r dynion:

C Defnyddiwch y cliwiau hyn i gwblhau'r Grid Geiriau.

Pwy a'th benododd di yn bennaeth ac yn farnwr arnom? A wyt am fy lladd i fel y lleddaist yr Eifftiwr?

1. Dywedodd yr Hebrëwr wrth Moses, "Pwy a'th benododd di yn bennaeth ac yn _____ arnom?"
2. Lladdodd Moses ddyn o'r wlad hon.
3. Cuddiodd Moses hwn yn y tywod.
4. Gwelodd Moses ddau Hebrëwr yn gwneud hyn.



8

Roedd Moses yn meddwl na fyddai'n cael ei ddal. Ond roedd rhywun wedi gweld beth wnaeth e! Rydym ni weithiau'n meddwl na chawn ni ein dal pan fyddwn ni'n gwneud pethau drwg. Ond mae'r Beibl yn dweud:



“Gewch
wybod y
bydd eich
pechod yn
eich dal.”

5

Lliwch yr Adnod Allweddol.

Pan ddaeth Pharo i wybod beth roedd Moses wedi'i wneud, roedd e eisiau ei ladd. Felly, dyma Moses yn dianc i wlad Midian. Yn lle byw ym mhalas Pharo, roedd rhaid i Moses fyw yn yr anialwch. Bu'n gweithio fel bugail i ddyn o'r enw Jethro.

C Lliwch yr hanner cylch sydd wrth ymyl yr ateb cywir.

Dihangodd Moses i wlad – Midian



Edom.

Bu Moses yn gweithio fel – milwr



bugail

Nid Pharo'n unig oedd yn gwybod beth wnaeth Moses – roedd Duw hefyd yn gwybod! Mae Ef yn gweld ac yn gwybod popeth rydyn ni'n ei wneud. Does dim wedi ei guddio oddi wrtho Ef! Yn wir, mae Duw'n gwybod y cyfan fyddwch chi'n ei wneud, ei ddweud a'i feddwl – a dylai hynny wneud i chi feddwl yn galed!



4